

## **Beirniadaeth Cystadleuaeth 349: - Cynnwys Digidol Bl 6 ac iau Beirniad - Efa Lois**

Daeth 19 ymgais i law yn y gystadleuaeth hon. Roedd y deunydd yn ymwneud ag ystod eang o themau, ac roedd pob ymgais yn dangos addewid.

Dyma'r ymgeisiadau oedd ger y brig:

Roedd gan CORACH BACH ddefnydd hyfryd o ffilmio drôn - fel hysbyseb ar gyfer ymweld â Chymru!

Roedd gan CEWRI'R CASTELL fideo stop motion yn trafod hanes cestyll Cymru gyda ffigyrau o glai a papier mache. Cafodd llawer o wybodaeth ei chyflwyno yn y fideo, ond roedd y diweddglo braidd yn sydyn. Ymdrech dda.

Roedd gan Y FFISEGWYR fideo hyfryd ar y teitl 'Grym' yn egluro beth yw grym a ffrithiant, yn ffocysu ar feiciau yn bennaf. Roedd y fideo'n arddangos sgiliau adrodd, ffilmio, sgriptio ac addasu fideo gwych!

Roedd gan YSGOL GYNRADD CLYTHA ddefnydd diddorol iawn o sgrîn werdd (green screen) i hysbysebu Cymru. Roedd y fideo'n arddangos technegau a sgiliau addasu ffilm da iawn.

Roedd gan Y GWYDDONWYR ffilm hyfryd yn dogfennu proses disgyblion o greu llinell zip o lego - syniad difyr gyda darluniau hyfryd. Mae'r fideo'n dogfennu y troeon aflwyddiannus a'r troeon llwyddiannus gyda cherddoriaeth ddramatig yn y cefndir. Ar ddiwedd y fideo ceir eglurhad o sut adeiladwyd y 'zip-wire' o lego mewn arddull soffistigedig stop motion - da iawn!

Animeiddiad hyfryd am 'anghenfil sbwriel' oedd gan CYW A DERYN. Mae'r darluniau, y lliwiau, ac arddull addasu'r fideo yn wych. Mae'r dechneg animeiddio'n gynnil ac effeithlon, ac yn dangos ôl llawer o waith.

**1af: 349/8 - CYW A DERYN**

**2il: 349/5 - Y GWYDDONWYR**

**3ydd: 349/18 - YSGOL GYNRADD CLYTHA**